

## Trosolwg

Mae'r safon hon ynglŷn â monitro ymddygiad y rheiny sy'n mynychu llysoedd a thribiwnlysoedd a mynd i'r afael ag achosion o anhrefn gyhoeddus neu fethiant i gadw at brotocolau arferol. Nid yw'n cynnwys gafael yn rhywun yn gorfforol i gael ei hebrwng o wrandawiadau.

Gall achosion fod naill ai'n droseddol neu'n sifil mewn llysoedd neu dribiwnlysoedd.

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. fonitro ymddygiad y rheiny sy'n mynychu gwrandawiadau, yn unol â gofynion sefydliadol, a:
  - 1.1 bod yn effro i arwyddion o ymddygiad annerbyniol
  - 1.2 nodi achosion o ymddygiad annerbyniol
  - 1.3 cymryd camau i gynnwys achosion o ymddygiad annerbyniol
2. ymateb i broblemau ac amgylchiadau sydd angen sylw, yn unol â gofynion sefydliadol a graddfeydd amser
3. rhoi rhybuddion ar lafar i unigolion sy'n dangos arwyddion cychwynnol ac annerbyniol o ymddygiad, yn unol â gofynion sefydliadol
4. mynd i'r afael ag achosion o ymddygiad annerbyniol, yn unol â gofynion sefydliadol, ac
  - 4.1 adrodd am achosion sydd angen ymyrraeth gorfforol i awdurdodau, yn unol â gofynion sefydliadol
5. cyfathrebu mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo dealltwriaeth, yn unol â gofynion sefydliadol
6. delio ag unigolion mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo ymddygiad ac agweddau cadarnhaol, yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol
7. cynnal diogelwch y rheiny sy'n mynychu gwrandawiadau, yn unol â gofynion sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion a gweithdrefnau sefydliadol presennol ar gyfer cynnal y drefn gyhoeddus mewn gwrandawiadau 2. rolau a chyfrifoldebau'r rheiny sy'n rheoli'r drefn gyhoeddus mewn gwrandawiadau 3. prif fathau o anhrefn gyhoeddus a sut i adnabod y rhain 4. pwysigrwydd adnabod arwyddion o anhrefn bosibl yn gynnar a sut i wneud hyn 5. y camau y dylid eu cymryd i fynd i'r afael ag achosion o dorri rheolau'r drefn gyhoeddus 6. gwahanol ddulliau cyfathrebu a sut i addasu eich arddull i fodloni anghenion y sefyllfa 7. pwysigrwydd aros yn bwylllog wrth ymdrin â sefyllfaoedd anodd 8. eich rôl a'ch cyfrifoldeb o ran cynnal y drefn gyhoeddus

SFJDC4

Cynnal y drefn gyhoeddus a phrotocolau mewn llysoedd a thribiwnlysoedd



---

<b>Datblygwyd gan</b>	Skills for Justice
<b>Dyddiad cymeradwyo</b>	01 Chwef 2018
<b>Dyddiad Adolygu Dangosol</b>	01 Chwef 2023
<b>Dilysrwydd</b>	Ar hyn o bryd
<b>Statws</b>	Gwreiddiol
<b>Sefydliad cychwynnol</b>	Sgiliau er Cyfiawnder
<b>RCU gwreiddiol</b>	SFJ DC4
<b>Galwedigaethau perthnasol</b>	Swyddog Llys, Swyddog erlyn, Swyddog Tribiwnlys
<b>Cyfes/Set</b>	Llysoedd, Tribiwnlysoedd ac Erlyniadau
<b>Geiriau Allweddol</b>	llys; tribiwnlys; achos; y drefn gyhoeddus; ymddygiad; anhrefn; protocol

---